# ELLIS, RICHARD (1784 - 1824), swyddog cyllidfa a cherddor

**Enw:** Richard Ellis
**Dyddiad geni:** 1784
**Dyddiad marw:** 1824
**Rhiant:** Lewis Ellis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** swyddog cyllidfa a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Economeg ac Arian; Cerddoriaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd 24 Ionawr 1784, mab Lewis Ellis, Llansadwrn, organydd eglwys Biwmares. Yr oedd yn un o gerddorion gorau'r cyfnod. Yn 1800 penodwyd ef yn olynydd i'w dad fel organydd eglwys Biwmares, a llanwodd y swydd hyd ei farwolaeth. Yn 1821 gorffennodd gasglu ' *Llyfr Tonau a Salmau Cymreig* ' at wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru, a chafodd ganiatâd esgob Bangor i'w gyhoeddi, ond ni wyddys beth a ddaeth o'r casgliad. Cyfansoddodd lawer o ddarnau cerddorol hefyd. Bu farw 10 Rhagfyr 1824, a chladdwyd ef ym mynwent Biwmares.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

*Cymru (O.M.E.)*, ii, 597

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

*Y Cerddor*, Mai 1890


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734274


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu